

Perthynas Llundain â Chymru

Cymru v Llundain

- Adeilad uchaf Cymru yw Tŵr Meridian yn Abertawe, sy'n 107 metr.
- Adeilad uchaf Llundain yw *The Shard*, sy'n 310 metr o uchder.
- Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd yw stadiwm mwyaf Cymru - mae 74,500 o seddi yno.
- Stadiwm Wembley yw stadiwm mwyaf Llundain ac mae 90,000 o seddi yno.
- Mae deg prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Mae o leiaf 40 prifysgol yn Llundain ar hyn o bryd.
- Twunnel hiraf Cymru (ac eithrio Twunnel Hafren, sy'n cysylltu Cymru a Lloegr) yw twunnel trê'n un trac o'r enw Twunnel Ffestiniog sy'n, 3,407 metr.
- Twunnel hiraf Llundain yw twunnel trê'n y Northern Line, sy'n 27,800 metr o hyd.
- Sinema leiaf Cymru oedd '*La Charrette*' yng Ngorseinon ger Abertawe. Roedd lle i 23 wylio ffilm yno. Mae'r sinema wedi cau erbyn hyn.
- Yn Llundain, mae gan sinema 'Vue Piccadilly' dair sgrin. Mae lle i 88 yn Sgrin 1, 59 yn Sgrin 2 a dim ond lle i 40 yn Sgrin 3. Dyma, mae'n debyg, yw sinema leiaf Llundain.

Wyddoch chi?

Llundain Fwyaf, neu *Greater London*, yw'r enw ar ranbarth Llundain, sy'n cynnwys dinas Llundain a'r bwrdeistrefi sy'n ei hamgylchynu. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth y rhanbarth yn 8,173,900. Mae hyn dros ddwbl poblogaeth Cymru gyfan!

Agorwyd y trê'n tanddaearol - Y Tiwb - yn 1863. Mae 1.37 biliwn o deithwyr yn ei ddefnyddio bob blwyddyn. Mae'r holl rwydwaith yn 402 km o hyd.

Mae mwy na 300 o ieithoedd yn cael eu siarad yn Llundain.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, lladdodd Sŵ Llundain bob anifail gwenwynig oedd ganddynt rhag ofn y byddai'r sŵ yn cael ei fomio ac y byddai'r anifeiliaid yn dianc.

Mae 72 biliwnydd yn byw yn Llundain. Mwy nag unrhyw ddinas arall yn y byd.

Cyfartaledd pris tŷ yn Llundain yw £489,100 o'i gymharu â £197,200 yng Nghaerdydd.

Yn ôl erthygl ar wefan y Metro yn 2014, roedd 2,080,369 o bobl yn prynu coffi-i-fynd BOB DYDD yn Llundain!!

Quidditch!

Mae Llundain yn rhan amlwg o straeon Harry Potter. Un o'r pethau cyntaf mae'n rhaid iddo wneud er mwyn cyrraedd Hogwarts yw dal trê'n o blatfform naw a thri chwarter yng ngorsaf King's Cross yn Llundain. Byddai'n braf gallu mynd yno, ond dim ond gwrachod a dewiniaid sy'n gallu cyrraedd y platfform, yn anffodus. Wedi dweud hynny, dim ond gwrachod a dewiniaid sy'n chwarae quidditch yn y llyfrau hefyd. Ond dydy hynny ddim yn wir mewn bywyd go iawn!!! Gwyliwch hwn:

<https://www.youtube.com/watch?v=FBVbyYObRtk>

Llaeth Llundain!

Dyma ddetholiad o hen erthygl a gyhoeddwyd ar y 10fed o Fai, 2006, ar wefan y BBC yn sôn am y diwydiant llaeth enfawr wnaeth ddatblygu yn Llundain – diolch i ffermwyr o Gymru:

Godro

Ar un adeg, roedd 700 o laethdai yn Llundain ac mae cysylltiad Cymru â diwydiant llaeth y ddinas yn mynd yn ôl sawl canrif.

Ar droad y 19^{eg} ganrif, roedd miloedd o wartheg godro'n cael eu cadw mewn ardaloedd cymharol wledig ar gyrion canol Llundain, fel Islington.

Yno, roedd porfa bwysig i borthmyn a ffermwyr o Gymru ar eu ffordd i werthu cig eidion a llaeth ffres ym Marchnad Smithfield.

Chwaraeodd cymuned Gymreig Llundain ran amlwg yn y diwydiant cig a chynhyrchu a dosbarthu llaeth.



Teithiodd nifer o ferched Cymru i'r ardal i odro'r gwartheg mewn cytiau a byddai'r llaeth yn cael ei gludo i'r ddinas ddwywaith y dydd.

Yn ôl un adroddiad o'r cyfnod, roedd y llaeth yn cael ei gludo o'r beudai mewn piseri tun mawr gan "ferched Cymreig cryf" cyn i'r llaeth gael ei werthu ar strydoedd y ddinas.

Roedden nhw'n arfer cario rhwng 100 a 130 pwys ar eu cefnau am ddwy neu dair milltir y dydd ac erbyn canol dydd roedden nhw'n dychwelyd i'r beudai am fwy o laeth.

Eu tâl am waith mor flinedig oedd brecwast a naw swllt yr wythnos.

Mor ddiweddar â 50 mlynedd yn ôl roedd mwy na 500 o laethdai Cymreig yn Llundain. Ond gwerthu'r busnes i gwmnïau llaeth mawr a dychwelyd i Gymru fu hanes

	nifer fawr o'r teuluoedd oedd yn berchen arnyn nhw.
--	---

Gigio yn Llundain

Mwynhewch y gerddoriaeth yma gan artistiaid Cymraeg sy'n gigio'n gyson yn Llundain:

CASI:

https://www.youtube.com/watch?v=IBKjVF_Ud-s

AL LEWIS BAND:

<https://www.youtube.com/watch?v=8UJPRX8qwJY>

SORELA:

<https://www.youtube.com/watch?v=sdriwgfPND0>

Ben, Llyw ac Iol!

Os oes gennych chi ddi-ddordeb yn hanes Cymru, byddwch chi wedi clywed am o leiaf ddau o'r tri enw yma o'r blaen.

Cyn egluro pwy yn union yw'r tri, un peth y dylech chi wybod amdanynt yw bod gan y tri gysylltiad â Llundain.

1. BENDIGEIDFRAN

Mae hanes Bendigeidfran yn dod o'n chwedlau hynaf ni – y Mabinogi. Roedd Bendigeidfran yn gawr ac yn frenin Ynysoedd Prydain. Priododd chwaer Bendigeidfran, Branwen, â brenin Iwerddon, Matholwch. I dorri stori hir iawn yn fyr, aeth pethau'n ffradach rhwng y ddwy wlad. Mae hi'n stori am ddial, cosbi a lladd. Yn y pen draw, roedd yn rhaid i Bendigeidfran a'i fyddin fynd i Iwerddon i achub Branwen a brwydro yn erbyn y Gwyddelod. Yn anffodus, lladdwyd Bendigeidfran. Roedd yn rhy fawr i'w gario adref, felly torrwyd ei ben i ffwrdd ... a dyma pryd mae Llundain yn ymuno â'r stori!

Yn ôl y sôn, cafodd pen enfawr Bendigeidfran ei gymryd i Lundain i le o'r enw Gwynfryn. Heddiw, mae pobl yn credu mai dyma leoliad Tŵr Llundain. Claddwyd ei ben yno, yn wynebu Ffrainc, fel rhybudd i elynion beidio â mentro ymosod ar Ynysoedd Prydain.

Os ydych chi eisiau darganfod mwy am y chwedl gyflawn, chwiliwch am chwedl *Branwen Ferch Llŷr*.



2. LLYWELYN EIN LLYW OLAF

Cysylltiad tebyg sydd gan Llywelyn ein Llyw Olaf, neu Llywelyn ap Gruffudd, â Llundain. Rydyn ni'n ei alw'n Llywelyn ein Llyw Olaf oherwydd ef oedd tywysog olaf Cymru (er i Owain Glyndŵr ddatgan ei hun yn dywysog Cymru tua chant a hanner o flynyddoedd ar ôl Llywelyn, ond stori arall yw honno!).

Cafodd Llywelyn ei gydnabod yn dywysog ar Gymru gyfan yn 1258, ond yn 1272 daeth Edward 1 yn frenin Lloegr. Roedd o am goncro Cymru ac felly dechreuodd ei ymgyrch i gael gwared ar unrhyw bŵer oedd gan unrhyw un yng Nghymru, a Llywelyn oedd ei brif darged.

Yn 1282, yng Nghilmeri ger Llanfair-ym-muallt, y lladdwyd Llywelyn. Os ewch chi yno heddiw mae carreg enfawr wedi ei gosod i nodi'r fan lle lladdwyd tywysog olaf Cymru. Ond pe baech chi'n cerdded i lawr y llwybr o'r garreg tuag at yr afon, mae ffynnon arbennig yno.

Ar ôl i Llywelyn gael ei ladd gan y Saeson, yn ôl y sôn torrwyd ei ben i ffwrdd a'i olchi yn y ffynnon cyn cael ei anfon at y brenin fel prawf bod Tywysog Cymru wedi marw. Cafodd y pen ei gymryd i Lundain, ond nid er mwyn ei gladdu'n urddasol fel pen Bendigeidfran, ond er mwyn ei gario o gwmpas y strydoedd a'i arddangos i'r bobl. Roedd brenin Lloegr wedi lladd y gelyn ac roedd o gam yn nes at goncro'r Cymry. Gosodwyd pen Llywelyn ar bigyn haearn ger Tŵr Llundain a'i adael yno am flynyddoedd i atgoffa'r bobl fod Lloegr wedi concro Cymru.



Cofeb Llywelyn yng Nghilmeri

3. IOLO MORGANWG

Diolch byth, nid stori arall am rywun yn colli ei ben yw'r stori hon, ond hanes sefydlu rhywbeth arbennig iawn i ni yng Nghymru heddiw. Roedd Iolo Morganwg yn byw rhwng 1747 ac 1826. Roedd yn gymeriad lliwgar ac yn dipyn o seleb yn ei oes. Roedd yn ymddiddori mewn hanes, llawysgrifau a llenyddiaeth. Roedd yn casglu hen lawysgrifau ac yn hoffi ail greu hen arferion. Darganfuwyd, ar ôl iddo farw, ei fod wedi ffugio nifer o ysgrifau a thystoliaethau. Felly, er iddo fod yn gymeriad dylanwadol iawn yn ein hanes, dydy o na'i waith ddim yn ddibynadwy iawn.

Er hynny, mae ei ddylanwad aruthrol dal yn amlwg heddiw. Ar Fryn y Briallu yn Llundain (Primrose Hill) yn 1792, sefydlodd Iolo Morganwg Orsedd y Beirdd – y bobl sy'n gwisgo dillad hir gwyn, glas a gwyrdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Sefydlodd yr Orsedd a chreu seremonïau a thraddodiadau, gan honni eu bod yn perthyn i hen arferion Celtaidd. Beth bynnag oedd y gwirionedd, mae'r traddodiad a'r sefydliad yma dal yn ei anterth eleni, ac yn rhan gwbl unigryw a phwysig o ddiwylliant Cymru. Os ewch chi i Fryn y Briallu yn Llundain fe welwch chi gofeb i'r digwyddiad yno.



Cofeb Iolo Morganwg ar Fryn y Briallu, Llundain



Gorsedd y Beirdd

Cymry Llundain

Dyma ddeholiad o erthygl oddi ar [wefan Cymru fyw](#). Sylwch mai erthygl o 2015 ydyw ac nad yw'r rhaglen ar S4C ar hyn o bryd!

Cyfraniad Cymru Llundain – 24 Ebrill 2015



Hawlfraint llun © S4C

Mae Llundain wedi bod yn gyrchfan i genedlaethau lawer o Gymry. Mewn cyfres newydd ar S4C bydd y darlledwr Huw Edwards yn rhannu stori rhai o gymeriadau lliwgar a dylanwadol o blith Cymry Llundain sydd wedi cyfrannu yn helaeth i hanes a datblygiad un o ddinasoedd mwya'r byd:

'Pryfoclyd'

Prif rinwedd Llundain yw ei hamrywiaeth. Y mae profi bywyd amlieithyddol ac amlddiwylliannol y ddinas yn beth i'w drysori. Ond y gwir yw

'Arwyr'

Gerllaw saif *All Hallows by the Tower*, eglwys hynaf Dinas Llundain, lle bu nifer o Gymry yn addoli dros y canrifoedd, gan gynnwys Owain Myfyr, masnachwr cyfoethog ac un o'r caredigion mwyaf hael a welwyd erioed yn hanes diwylliant Cymru.

Mae 'na ddigon o arwyr eraill yn stori Cymry Llundain. Yn eu plith fe gawn Syr Hugh Myddelton, y peiriannydd a sefydlodd gyflenwad dŵr ffres i drigolion canol Llundain; Syr Hugh Owen, prif sylfaenydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth; Syr Benjamin Hall ('Big Ben') a'i wraig ryfeddol Arglwyddes Llanover, un arall o noddwyr hael ein diwylliant; David Lloyd George, gwleidydd radical a phrif weinidog nodedig, a'i wraig Margaret, arwres a fu'n asgwrn cefn i

bod stori Cymry Llundain, un o leiafrifoedd ethnig hynaf y ddinas, yn rhyfeddol o anghyfarwydd.

Yn fy nghyfres newydd ar S4C, **Huw Edwards a'r Cymry Estron - Stori Cymry Llundain**, rwy'n ceisio adrodd stori gymhleth a bywiog mewn tair pennod o awr yr un... tipyn o her a dweud y gwir.

Mae **Cymry Estron** yn deitl pryfoclyd - ar bwrpas - gan mod i'n gwahodd y gwylwr i ystyried o'r newydd y cyfraniad a wnaed gan y gymuned Gymraeg fwyaf y tu hwnt i Glawdd Offa.

'Oes y Tywysogion'

Ond sut mae cychwyn yr hanes? Mae nifer o'n haneswyr disglair yn nodi 1485, a dyfodiad Harri Tudur, fel man cychwyn y gymuned Gymreig yn Llundain. Wedi'r cyfan, fe ddethlir gwreiddiau Cymreig Harri (roedd yn chwarter Cymro, fel mae'n digwydd...) ac fe ddaeth â byddin fechan o Gymry i Lundain ar ôl iddo gipio coron Lloegr ar Faes Bosworth. Ond mae 'na ddigon o dystiolaeth o bresenoldeb Cymreig yn Llundain ymhell cyn coroni Harri VII.

gymaint o achosion da.



Mae cyfraniad y peiranydd o Gymro, Syr Hugh Myddleton, yn cael ei gydnabod ar ffurf cofgolofn yn Islington Green.

'Ymdopi â newidiadau'

Do, fe gafwyd Clwb Cymry Llundain, ond bu'n rhaid aros tan y 1930au cyn cael hwnnw. Ac felly'r capel (a'r eglwys) oedd yn darparu rhwydwaith arbennig ar gyfer cymuned fawr y Cymry yn Llundain.

Un o'r pethau mwyaf godidog am fywyd Llundain yw bod y ddinas yn newid yn ddi-ffael, o flwyddyn i flwyddyn. A'r dasg yn y gyfres hon yw gosod Cymry Llundain yn y cyd-destun arbennig hwnnw, sef cymuned sy'n gorfod ymdopi â newid cyson.

Bu'n rhaid i'r gymuned honno ddatblygu, ond fe lynodd hefyd at rai traddodiadau pwysig. Y gobaith yw y bydd gwylwyr **Cymry Estron** yn cael mwy o afael ar amrywiaeth y ddinas, a rhan y

Fe ddechreuwn y gyfres yn Nhŵr Llundain ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1244, pan syrthiodd y tywysog Gruffydd ap Llywelyn Fawr i'w farwolaeth wrth geisio dianc.

Mae 'na stryd gul ger y Tŵr, *Petty Wales*, ac mae haneswyr yn barnu mai cyfeiriad yw hwnnw at gyswllt hynafol â'r tywysogion o Gymru.

Cymry ym mywyd cyfoethog un o ddinasoedd mawr y byd.

Y cwestiwn ar ddechrau'r gyfres yw hwn: pam trafod Cymry Llundain? Rwy'n ceisio dangos bod eu stori nhw yn berthnasol i'ch stori chi.

Mae hanes Cymru a hanes Cymry Llundain wedi eu cydblethu'n glos. Ie, Cymry 'estron', ond Cymry sy'n rhan annatod o stori Cymru.

Cyfrifiad Cymru

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth rhanbarth Llundain Fawr yn 8,173,900. Mae hyn dros ddwbl poblogaeth Cymru gyfan!

Pwyntiau Allweddol o Gyfrifiad Cymru:

- Ar noson y cyfrifiad roedd poblogaeth Cymru yn 3.06 miliwn, sef ei phoblogaeth fwyaf erioed.
- Roedd 1.50 miliwn o ddynion ac 1.56 miliwn o ferched yng Nghymru.
- Tyfodd y boblogaeth 153,000 yn y 10 mlynedd ers y cyfrifiad diwethaf yn 2001.
- Yn 1911, roedd 2.4 miliwn o bobl.
- Roedd cyfraddau mudo yn cyfrif am dros 90 y cant o'r cynnydd yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011. Mae hyn yn cynnwys mudo rhyngwladol a mudo o rannau eraill o'r DU.
- Oedran canolrif y boblogaeth yng Nghymru oedd 41. Ar gyfer dynion, 40 oedd yr oedran canolrif ac ar gyfer merched 42 oedd yr oedran canolrif. Yn 1911, roedd yr oedran canolrif ledled Cymru a Lloegr yn 25.
- Roedd 18.4% o'r boblogaeth yng Nghymru yn 65 oed a throsodd, uwch nag unrhyw gyfrifiad arall.

- Roedd 25,000 o breswylwyr yng Nghymru a oedd yn 90 oed a throsodd yn 2011, o gymharu â 19,000 yn 2001 a 700 yn 1911.
- Yn 2011, roedd 178,000 o blant o dan bump oed yng Nghymru, 11,000 yn fwy nag yn 2001.
- Yng Nghymru, roedd dwysedd cyfartalog y boblogaeth yn 148 o breswylwyr fesul cilomedr sgwâr, a oedd yn is nag unrhyw ranbarth yn Lloegr.
- Tyfodd y boblogaeth ym mhob rhan o Gymru rhwng 2001 a 2011 heblaw am Flaenau Gwent, lle y bu dirywiad bach.

Cewch ragor o wybodaeth [yma](#).

Ffasiwn Llundain

Gwylwch y fideo yma oddi ar dudalen Facebook HENO - Medi 18.

<https://www.facebook.com/HenoS4C/videos/vb.252534428163405/1514088592007976/?type=2&theater>